Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Tanygrisiau
# Blaenau Ffestiniog
# Gwynedd
# LL41 3SU

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Tanygrisiau wedi ei lleoli ger tref Blaenau Ffestiniog yng Ngwynedd ac yn gwasanaethu cymuned Tanygrisiau.

Ar hyn o bryd, mae 60 o ddisgyblion 3 i 11 mlwydd oed ar y gofrestr, sy’n cynnwys naw o ddisgyblion oed meithrin rhan amser. Bu patrwm cyfnewidiol yn y niferoedd ar y gofrestr dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae gan yr ysgol dri dosbarth amser llawn o oed cymysg.

Mae 28% o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn uwch na’r ffigwr cenedlaethol, ond yn ostyngiad sylweddol ar ffigyrau blynyddoedd blaenorol. Mae 34% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys ychydig iawn ohonynt â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o dan ofal yr awdurdod sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol.

Mae 70% o’r disgyblon yn dod o gartrefi lle maent yn siarad Cymraeg.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd ym Medi 2009 a chafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yng Ngorffennaf 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Tanygrisiau yn 2014-2015 yw £4,388. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,744 a'r lleiafswm yw £3,220. Mae Ysgol Gynradd Tanygrisiau yn y 30ain safle o'r 95 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- Bod medrau trawsieithu llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn dda
- Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau mathemategol amrywiol
- Bod lefelau presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf
- Bod yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu addas sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu dysgu
- Bod athrawon a chynorthwywyr dosbarth yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol yn y gwersi
- Bod strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda ar draws yr ysgol, ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Bod gan y pennaeth ac arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer ei datblygu ac maent yn cyfleu'r weledigaeth honno yn glir i bawb sy'n ymwneud â hi
- Bod gan y pennaeth ac arweinwyr eraill ddarlun clir o'i chryfderau a'r meysydd i'w gwella
- Bod y llywodraethwyr yn cyfrannu'n effeithiol i'w phrosesau strategol ac yn ei herio'n briodol ynghylch ei pherfformiad
- Bod yr adroddiad hunanarfarnu yn adnabod cryfderau a gwendidau'r ysgol yn glir
- Bod y cynllun datblygu ysgol yn ddogfen ddefnyddiol sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion yn defnyddio a chymhwyso'u medrau rhifedd yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau bod tasgau'n herio disgyblion mwy abl yn briodol

A3 Grymuso'r system olrhain cynnydd fel bod athrawon yn rhoi ffocws clir a manwl ar gynnydd carfanau penodol o ddisgyblion

A4 Sicrhau bod blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn benodol a hylaw er mwyn galluogi'r arweinwyr i arfarnu cynnydd yn ystyrlon yn erbyn y dangosyddion llwyddiant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol y mwyafrif o'r disgyblion, wrth ddechrau'r ysgol, yn amrywio'n fawr. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn. Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfranogi'n gydwybodol yn eu dysgu ac yn barod i fentro a chynnig atebion addas.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith gan ddefnyddio cystrawen addas a geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn trafod eu syniadau'n glir ac yn frwdfrydig. Mae llawer y disgyblion yn mwynhau darllen llyfrau ac yn gwneud cynnydd priodol gan ddarllen yn ystyrlon, gyda chywirdeb a dealltwriaeth briodol o'r testun. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn gallu trafod cynnwys stori'n fanwl gan gyfeirio at rannau penodol o'r llyfr wrth drafod eu hoff gymeriad.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith. Mae llawer yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith, gan ymuno â thrafodaethau dosbarth yn frwdfrydig. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod agweddau o'u gwaith yn ddeallus, gydag ychydig o ddisgyblion mwy abl yn trafod gydag aeddfedrwydd a chan ddefnyddio geirfa briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa. Mae ychydig iawn yn darllen gydag ansicrwydd a diffyg dealltwriaeth o'r testun. Mae llawer o ddisgyblion yn medru cywain gwybodaeth berthnasol o wahanol destunau gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol. Ar frig yr ysgol, mae medrau trawsieithu llawer o ddisgyblion yn dda. Enghraifft o hyn yw'r disgyblion yn dod o hyd i ffeithiau mewn llyfrau cyfair cyfrwng Saesneg a chyflwyno'r prif bwyntiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn hyderus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn addas gan ysgrifennu'n synhwyrol ac yn annibynnol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ffurf gryno'r ferf yn gyson ac yn atalnodi eu gwaith yn briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y ddwy iaith. Ar frig yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion mwy abl yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu ymestynnol yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa eang i gyfoethogi eu gwaith. Enghraifft o hyn yw ysgrifennu adroddiad o ymweliad â Phlas Mawr yn seiliedig ar waith hanesyddol yn y dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos gafael briodol ar ffurf wrth ysgrifennu yn y Saesneg gan ddatblygu eu syniadau'n ddychmygus a chan sillafu'n gywir. Mae cyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn daclus.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Gall y mwyafrif ddisgrifio nodweddion siapiau dau a thri dimensiwn gan ddefnyddio geirfa fathemategol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn gallu dod o hyd i ffracsiwn o siâp yn hyderus.

Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau mathemategol amrywiol. Yng nghyd-destun ymchwiliad syml, mae llawer yn gallu casglu a chofnodi data ar graff bloc a didoli gwrthrychau mewn diagram Venn, yn annibynnol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn gwersi a llyfrau mathemateg yn dda. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio amrywiaeth addas o ddulliau cyfrifo yn gywir wrth ddatrys problemau. Maent yn trin a dadansoddi data yn hyderus gyda'r mwyafrif o ddisgyblion mwy abl yn gallu cynhyrchu graffiau priodol yn annibynnol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio a chymhwyso'r medrau rhifedd maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg ar draws y cwricwlwm, yn ddigon rheolaidd.

Mae bron pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion mwy galluog yn gwneud cynnydd da ond nid ydynt bob amser yn cael eu hymestyn ar draws yr holl bynciau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder at yr iaith Gymraeg. Maent yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi.

Gan fod nifer y disgyblion yn y carfanau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn fechan iawn yn ystod dwy o'r tair blynedd ddiwethaf, ni ellir adrodd ar dueddiadau mewn perfformiad heb adnabod unigolion.

Mae perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd ddiwethaf yn dangos patrwm cyffredinol o welliant ym mhob pwnc craidd. Yn 2014, o'i chymharu ag ysgolion tebyg, mae'r ysgol wedi ei gosod yn y 25% uchaf ar gyfer y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn gyffredinol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefelau uwch, sef lefel 5, yn dangos patrwm da o gynnydd dros gyfnod o bedair blynedd. Yn 2014, mae perfformiad y disgyblion hyn yn gosod yr ysgol ymhlith yr 50% uwch yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg ac yn y 25% uchaf mewn gwyddoniaeth o gymharu ag ysgolion tebyg.

Dros gyfnod o dair blynedd yn y Cyfnod Sylfaen a phedair blynedd yng nghyfnod allweddol 2, nid oes patrwm clir o wahaniaeth ym mherfformiad bechgyn o gymharu â merched. Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn rhy fach ym mhob carfan dros bedair blynedd i fedru cymharu eu perfformiad yn ddibynadwy gyda'r gweddill.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn cyfranogi'n gydwybodol mewn gwersi. Mae ymddygiad a chwrteisi y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod unrhyw bryderon.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd er mwyn cadw'n iach. Maent yn meddu ar agwedd gadarnhaol tuag at fwyta ac yfed yn iach ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o elfennau sy'n debygol o effeithio ar eu hiechyd.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am eu gwaith ac yn dangos parch a gofal am eraill. Mae llais y disgyblion yn cael sylw da, gyda'r ysgol yn ymateb yn bositif i'w syniadau trwy holiaduron. Mae'r disgyblion yn dangos cyfrifoldeb wrth wneud penderfyniadau ar y cyngor ysgol a'r cyngor Eco. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi ymateb i gais gan y cyngor ysgol i brynu adnoddau i'w defnyddio adeg amser chwarae. Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol yn lleol. Maent yn ymgymryd â mentrau fel trefnu siop ffrwythau'r ysgol a marchnad cynnyrch ffermwyr lleol. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn effeithiol.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf. Mae prydlondeb yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu addas sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu dysgu. Mae'r cwricwlwm yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae gweithgareddau ac ymweliadau addysgol yn cyfoethogi ac yn atgyfnerthu profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol gynllun gweithredu priodol a chlir ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Yn gyffredinol, mae cynlluniau gwaith yn nodi'r cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, TGCh a medrau meddwl disgyblion yn addas. Er hynny, nid yw llyfrau'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos bod medrau rhifedd yn cael eu datblygu yn ddigon rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig a'r iaith Gymraeg yn dda. Trwy waith thema yn ymdrin â hanes boddi Tryweryn ac astudiaeth o waith a bywyd T. Llew Jones, mae dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol a hanes a diwylliant Cymru yn datblygu'n gadarn. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i'r disgyblion berfformio a chystadlu mewn digwyddiadau lleol a chenedlaethol.

Drwy hybu ysgol eco ac ysgol iach yn llwyddiannus, mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth byd eang yn effeithiol. Mae'r pwyllgor eco wedi cyfrannu'n gadarnhaol tuag at welliannau mewn ailgylchu ac arbed ynni.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon a chynorthwywyr dosbarth yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol yn y gwersi. Maent yn cynllunio gweithgareddau ysgogol sy'n ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion yn dda. Defnyddia'r mwyafrif o'r staff gwestiynau treiddgar ac agored er mwyn datblygu a gwella dealltwriaeth y disgyblion o'r tasgau, a'u hannog i ymhelaethu ar eu hatebion.

Mae athrawon yn rheoli ymddygiad ar draws yr ysgol yn effeithiol sy'n sicrhau awyrgylch lle gall y disgyblion ddysgu yn llwyddiannus ac adeiladu ar brofiadau blaenorol. Mewn llawer o'r gwersi, mae athrawon yn esbonio cysyniadau newydd yn glir, yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau ac yn ysgogi disgyblion yn effeithiol. Mewn ychydig o'r gwersi, mae'r athrawon yn arwain gormod ar yr y disgyblion ac mae diffyg her i'r rhai mwy abl.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda ar draws yr ysgol, gyda'r athrawon yn marcio'r gwaith yn adeiladol ac yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig priodol i'r disgyblion ar eu hymdrechion. Mae gallu mwyafrif y disgyblion i ymateb i'r sylwadau hyn yn datblygu'n dda.

Mae'r staff yn asesu disgyblion yn gyson ac yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r broses yn effeithiol wrth gynllunio gwaith pellach yn briodol ar gyfer y disgyblion. Er bod gan yr ysgol weithdrefn briodol ar gyfer olrhain cynnydd unigolion, nid yw wedi'i datblygu'n llawn i olrhain cynnydd carfanau penodol o ddisgyblion yn ddigon manwl hyd yn hyn.

Mae adroddiadau i rieni yn bodloni'r gofynion statudol. Mae rhieni a gofalwyr yn teimlo'u bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar sy'n hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn dda ac yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r siop ffrwythau sy'n cael ei rhedeg gan ddisgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o fyw'n iach.

Mae staff yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol drwy gynnal gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a phrofiadau priodol eraill.

Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned ac yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion gefnogi digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol lleol. Mae hyn yn datblygu rôl y disgyblion yn effeithiol fel dinasyddion cyfrifol yn y gymuned ehangach. Enghraifft o hyn yw'r ymweliadau cyson â chanolfan yr henoed i gynnig adloniant, rhannu cynnyrch lleol adeg y diolchgarwch a chyfle i glywed hanesion lleol gan yr aelodau.

Trwy gydweithio'n agos â nifer o asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth eraill, mae'r ysgol yn cynnig arweiniad, cymorth a gwybodaeth effeithiol i ddisgyblion a'u rhieni pan fydd eu hangen arnyn nhw.

Mae gan yr ysgol drefniadau da ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod yn gynnar. Defnyddia'r ysgol y wybodaeth o arsylwadau a phrofion yn bwrpasol i ddarparu rhaglenni ymyrraeth addas ar eu cyfer. Mae targedau clir a mesuradwy yn y cynlluniau addysg unigol ac mae athrawon yn adolygu cynnydd y disgyblion yn eu herbyn yn rheolaidd. Maent yn trafod y targedau a'r cynnydd yn rheolaidd gyda'r disgyblion a'u rhieni.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol a chyfeillgar iawn yn yr ysgol. Mae cymuned glos a chroesawgar ac awyrgylch cynnes rhwng y staff a'r disgyblion. Mae pawb yn dangos yr awydd i helpu a chefnogi ei gilydd gan roi cyfle cyfartal i bob un. Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i ddeall a pharchu pobl eraill o gefndiroedd amrywiol a chânt eu paratoi'n dda ar gyfer camau nesaf mewn bywyd.

Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob un ac sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol. Mae'r rhain yn hysbys i'r holl randdeiliaid.

Er bod yr adeilad yn hen, gwneir defnydd pwrpasol ohono ar gyfer chwarae a dysgu gan ddilyn rhai argymhellion gan y cyngor ysgol a'r cyngor eco. Ceir ystafelloedd dosbarth lliwgar gydag adnoddau addas ar gyfer dibenion y cwricwlwm. Mae arddangosfeydd priodol i'w cael ar draws yr ysgol sy'n symbylu'r dysgu. Dangosant enghreifftiau da o waith a llwyddiannau'r disgyblion. Caiff y safle a'r adeilad eu cadw'n lan a graenus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth ac arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol, ac maent yn ei chyfleu yn glir i bawb sy'n ymwneud â hi. Mae'r pennaeth, a'r staff yn cydweithio'n effeithiol er mwyn darparu addysg o safon uchel. Mae swydd ddisgrifiadau staff yn gyfredol ac yn nodi eu rôl a'u cyfrifoldebau'n glir.

Mae'r pennaeth wedi gosod nifer o strategaethau priodol ar waith sydd wedi arwain at godi safonau cyrhaeddiad disgyblion. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd lle mae cyfeiriad penodol at drafodaethau sy'n ymwneud â'r strategaethau hyn, safonau'r ysgol a deilliannau disgyblion ac mae staff yn monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol yn rheolaidd; er enghraifft, monitro safonau ysgrifennu yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn talu sylw addas i flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae wrthi'n addasu'r cynlluniau gwaith er mwyn ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ac mae'n talu sylw dyledus i geisio lleihau effaith amddifadedd ar ddisgyblion. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol i waith yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o'i chryfderau ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn derbyn gwybodaeth lawn gan y pennaeth am berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae ychydig o'r llywodraethwyr yn ymweld yn gyson â'r ysgol, sy'n fodd effeithiol i ehangu eu dealltwriaeth o safonau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n effeithiol i brosesau strategol yr ysgol ac yn ei herio ynghylch â'i pherfformiad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl ac effeithiol sy'n seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth. Mae'n cynnwys dadansoddiad o ddata, deilliannau prosesau monitro a chanfyddiadau holiaduron rhieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr. Mae'n ddogfen sy'n adnabod cryfderau a gwendidau'r ysgol yn glir.

Mae cydlynwyr pwnc yn cyfrannu'n effeithiol at y broses hunanarfarnu trwy graffu ar waith disgyblion ynghyd â thasgau monitro eraill. At ei gilydd, mae'r adroddiadau monitro yn ddadansoddol ac yn nodi'r cryfderau a meysydd sydd angen eu datblygu'n glir mewn meysydd penodol. Caiff canfyddiadau'r broses eu rhannu'n briodol mewn cyfarfodydd staff. O ganlyniad, mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o safonau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r angen am godi safonau darllen y disgyblion.

Mae cyswllt agos yn bodoli rhwng deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen ddefnyddiol sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae'n nodi nifer o flaenoriaethau gwella priodol, ynghyd â chyfrifoldebau, costau, amserlen weithredu a dangosyddion llwyddiant. Caiff gweithrediad y cynllun ei fonitro'n rheolaidd gan y pennaeth, y staff a'r corff llywodraethol. Er hynny, nid yw'r blaenoriaethau bob amser yn ddigon penodol a hylaw. Mae hyn yn cyfyngu ychydig ar allu'r ysgol i arfarnu cynnydd yn ystyrlon yn erbyn pob dangosydd llwyddiant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau niferus sy'n cyfrannu'n dda at wella safonau a lles y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r bartneriaeth â rhieni yn briodol ac yn cynnwys eu gwahodd i'r ysgol yn rheolaidd i drafod gwaith eu plant. Mae nifer o rieni hefyd yn chwarae rhan flaenllaw yng nghymdeithas cyfeillion yr ysgol, sy'n weithgar ac yn cyfrannu symiau sylweddol o arian sy'n gymorth i brynu adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm. Enghraifft o hyn yw'r offer cyfrifiadurol a brynwyd i ddatblygu medrau TGCh y disgyblion.

Mae cysylltiadau priodol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin cyfagos. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae partneriaeth lewyrchus yn datblygu gyda chlwstwr ysgolion y dalgylch. Mae'r ysgolion cynradd lleol yn cydweithio â'r ysgol uwchradd ar brosiect i fynd i'r afael ag agweddau penodol o'r cwricwlwm fel datblygiad llythrennedd a rhifedd. Er hynny,

mae'n rhy gynnar i fesur effaith y partneriaethau hyn ar ddeilliannau'r disgyblion. Mae cydweithio effeithiol yn bodoli gyda'r ysgolion hyn i gyd safoni a chymedroli asesiadau, sydd wedi datblygu hyder athrawon wrth lefelu gwaith disgyblion. Mae'r cynllun trosglwyddo i'r ysgol uwchradd leol yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo yno yn hapus a heb bryderon mawr.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae cyfraniad y disgyblion at weithgareddau fel y carnifal lleol a'r ymweliadau cyson â'r henoed, ynghyd â nifer o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn dda. Mae'r bartneriaeth yn hyrwyddo ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd y gymuned ynghyd â'u balchder tuag at eu hardal leol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau allanol a'r awdurdod lleol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff sy'n sicrhau bod yr ysgol yn ymateb i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn llwyddiannus. Gwneir defnydd effeithiol o amser ac arbenigedd athrawon i addysgu agweddau penodol o'r cwricwlwm ar draws yr ysgol. Defnyddir cymorthyddion yn effeithiol i gefnogi anghenion disgyblion unigol a grwpiau penodol.

Mae gan yr ysgol gynllun pwrpasol ar gyfer gwario'r grant amddifadedd disgyblion. Mae'r cynllun yn nodi cefnogaeth addas ar gyfer disgyblion difreintiedig, ond nid oes digon o gyfeiriad at y gefnogaeth i ddisgyblion o allu uwch. Trwy fonitro parhaus, mae arweinwyr yr ysgol yn sicrhau effeithiolrwydd y cynllun hwn.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad, sy'n ymateb i anghenion datblygiad proffesiynol yr athrawon a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol ar leihau baich gwaith athrawon.

Mae cymuned ddysgu broffesiynol rhwng yr ysgol ag ysgol gyfagos i rannu adnoddau ac arferion da o fewn anghenion dysgu ychwanegol wedi cael effaith gadarnhaol ar brosesau'r ysgol ac ar gynnydd y disgyblion hyn.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cadw golwg fanwl ar y sefyllfa gyllidol ac yn ymdrechu i reoli'r gwariant yn effeithiol. Mae defnydd priodol o grantiau, a chyfraniad ariannol gan gyfeillion yr ysgol, yn ychwanegu'n sylweddol at y gyllideb ac yn cyfoethogi'r ystod o adnoddau a'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion yn llwyddiannus.

O ystyried safonau dros gyfnod, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen ar gyfer yr ysgol hon.  Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

**6612211 - Ysgol Gynradd Tanygrisiau**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 69 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 28.1 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 7 | 5 | 6 | 16 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 71.4 | 80.0 | 83.3 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 5 | 6 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 71.4 | 80.0 | 100.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | 40.0 | 33.3 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 5 | 6 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 71.4 | 80.0 | 100.0 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | 20.0 | 16.7 | 26.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 5 | 6 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 71.4 | 80.0 | 100.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 42.9 | 40.0 | 50.0 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 5 | 6 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 71.4 | 80.0 | 83.3 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | 40.0 | 50.0 | 43.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 20 | 20<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 20 | 19<br>95%<br>92% | 1<br>5%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 21 | 19<br>90%<br>97% | 2<br>10%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 20 | 20<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 21 | 21<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 19 | 19<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 20 | 20<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 20 | 19<br>95%<br>98% | 1<br>5%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 21 | 19<br>90%<br>91% | 2<br>10%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 19 | 17<br>89%<br>95% | 2<br>11%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 19 | 17<br>89%<br>77% | 2<br>11%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 19 | 18<br>95%<br>84% | 1<br>5%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Eifion Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Griffith | Arolygydd Tîm |
| Jeffrey Davies | Arolygydd Lleyg |
| Ceri Emanuel | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gerallt Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.